

Cyfranogaeth gan oedolion a phobl oedrannus  
sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau mewn prosesau  
datblygu gofal cymdeithasol


## Cyfranogaeth gan oedolion a phobl oedrannus sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth mewn prosesau datblygu gofal cymdeithasol

Mae cyfranogaeth defnyddwyr wedi tyfu'n fwyfwy pwysig i ofal cymdeithasol. Mae Canllaw Ymarfer 11 SCIE yn dangos sut gellir defnyddio arddull 'system gyfan' i fesur llwyddiant wrth gynnwys defnyddwyr sy'n oedolion neu'n bobl **hyn**, a pha bethau y gellid eu gwella. Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth, arlowg ymarfer a digwyddiad i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'n cynnwys negeseuon allweddol, pwyntiau gweithredu ymarferol ac astudiaethau achos manwl.

Mae'r arddull system gyfan o ystyried cynhwysiad yn rhannu sefydliadau yn jigso pedair rhan: diwylliant, strwythur, ymarfer ac adolygiad (Gweler y darlun drosodd).

Mae'r canllaw ymarfer yn anelu at helpu sefydliadau gofal cymdeithasol drwy:

- ddatblygu *diwylliant* cyfranogol, yn rhoi mwy o bŵer i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y broses wneud penderfyniadau
- helpu defnyddwyr gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau *strwythurol* a all gyfyngu ar eu gallu i gyfranogi, yn cynnwys rhwystrau personol, sefydliadol a gwleidyddol, economaidd a diwylliannol, a thechnegol
- ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn creu strategaeth gyfranogi a gwella ymarfer wrth gefnogi gwahanol fathau o gyfranogaeth
- ymrwymo - gan gynnwys adnoddau penodol - i gasglu adborth ac *adolygu* cynnydd yng nghyfranogaeth defnyddwyr.



Datblygwyd yr arddull system gyfan o gyfranogi yn wreiddiol yng nghanllaw Ymarfer 06 SCIE <sup>2</sup>.

### Diben cyfranogaeth

Mae pobl yn deall yn well nawr ystyr cyfranogaeth defnyddwyr. Mae cyfranogaeth yn gweithredu ar lawer o lefelau, o reolaeth bersonol dros benderfyniadau ynghylch beth

i'w wisgo neu fwyta neu sut i dreulio amser, i gyfranogaeth dorfol wrth benderfynu sut mae gwasanaethau yn cael eu cynnig neu eu comisiynu. Nid mater syml o fod yn bresennol neu gyfrannu mohono, ond hefyd o gael dylanwad dros benderfyniadau a gweithrediadau.

Gall cyfranogaeth lwyddiannus gan ddefnyddwyr arwain at:

- newid a gwella gwasanaethau
- fuddiannau i unigolion a chymunedau, hyder ychwanegol er enghraifft, neu fedrau newydd
- cenhedlaeth newydd o wybodaeth, yn cynnwys herio a gwella syniadau traddodiadol am ymchwil, theori gofal cymdeithasol a dinasyddiaeth.

## Meddylfryd cyffredin ynghylch cyfranogaeth ar draws y gwasanaethau

Mae arddull system gyfan yn ffordd ddefnyddiol o edrych ar gyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth mewn gofal cymdeithasol.

## Diwylliant

Mae 'diwylliant sefydliad' yn disgrifio'r credoau, gwerthoedd a chonfensiynau sy'n cynrychioli natur unigryw sefydliad ac yn rhoi cyd-destun i'w weithredoedd. Mae llawer o bobl yn credu na ellir newid sefydliad heb yn gyntaf newid ei ddiwylliant.

## Datblygu diwylliant o gyfranogaeth

Mae ymrwymiad gan uwch reolwyr yn un o'r prif resymau pam bod rhai sefydliadau yn llwyddo i gynnwys defnyddwyr. Mae cenhadon cyfranogaeth o fewn sefydliadau yn helpu i hybu ymarfer da ac yn annog eraill i newid y ffordd y maen nhw'n gweithio.

Wrth i'r arbenigedd sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth gael ei chydnabod fwyfwy, mae eu rôle mewn systemau ffurfiol ac ymgynghoriadau wedi cynyddu. Mae angen i sefydliadau hefyd, fodd bynnag, gael hyd i ffyrdd anffurfiol o hybu cyfranogaeth gan ddefnyddwyr ac felly sicrhau fod eu lleisiau yn cael eu clywed.

## Deinamig pŵer

Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol fod gwahaniaethau pŵer rhwng defnyddwyr ac ymarferyddion proffesiynol, a chydnabod y gwahaniaethau hynny. Yn syml, mae gan ymarferyddion proffesiynol fwy o bŵer, adnoddau a chynhwysedd na defnyddwyr. Mae ymwneud llwyddiannus gyda defnyddwyr yn golygu ymdrechu i rannu'r pŵer yn fwy cydradd.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd rhai defnyddwyr yn wynebu 'gormes lluosog'. Er enghraifft, os yw defnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl hefyd yn aelod o gymuned leiafrifol (hil, rhyw, rhywioldeb, oed neu bod â chyflwr sy'n cael ei stigmatiddio, e.e HIV/AIDS). Mae diffyg cydbwysedd pŵer yn gallu cael ei waethgu pan fo sefydliadau gofal cymdeithasol yn eithrio rhai grwpiau o bobl yn ystod y broses

gyfranogi. Er enghraifft:

- drwy fynnu ar agenda ffurfiol iawn a rheolaeth dynn dros drafodaethau
- drwy ddiffinio pwy sy'n gyfranwyr 'cynrychioladol' neu 'ddilys', drwy reoli'n dynn pwy sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd a digwyddiadau ymghynghori, er enghraifft.

### Newid cyd-bwysedd pwer mewn perthnasau

Gall sefydliadau hwyluso newid diwylliannol ar frig y sefydliadau drwy apwyntio defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr i'w byrddau ymddiriedolaethwyr neu bwyllgorau rheoli. Gallant drefnu systemau ffurfiol i alluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau, drwy gyfarfodydd unigol neu dorfol, er enghraifft. Gallant hefyd fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd drwy gyflogi pobl sydd â phrofiad o fod yn ddefnyddwyr, ar y lefel weithredol ac wrth hyfforddi a datblygu staff.

### Diwylliant cyfranogaeth: pwyntiau gweithredu

- Mapiwch y gwahanol lefelau o gyfranogaeth, o gynhwysiad defnyddwyr mewn penderfyniadau beunyddiol i benderfyniadau strategol.
- Ar y cyd gyda defnyddwyr a'u sefydliadau, cytunwch yn glir ar amcanion a chanlyniadau'r broses gynhwyso
- Byddwch yn glir am y rhesymau dros wella cynhwysiad defnyddwyr, a'r buddiannau a ddaw yn sgîl hynny, a darparwch unrhyw hyfforddiant, cefnogaeth neu wybodaeth fydd eu hangen.
- Byddwch yn ymwybodol o'r agweddau sy'n peri i ddefnyddwyr deimlo eu bod yn cael eu heithrio a datblygwch ffyrdd o newid yr agweddau hynny.
- Cytunwch ar werthoedd cyffredin a byddwch yn onest am yr hyn a all ddeillio o'r broses gynhwyso.
- Sicrhewch fod strwythurau atebolrwydd yn eu lle a byddwch yn fodlon cyfaddef pan wneir camgymeriadau neu pan fo gan y gwasanaeth broblemau .
- Byddwch wastad yn barod i gydnabod y cyfraniad a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Strwythur

Mae ffactorau pwysig sy'n rhwystro cyfranogaeth. Dylai fod gan bob sefydliad strwythur gyfranogaeth sy'n cynnwys mesurau penodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a hwyluso cyfranogiad defnyddwyr.

### Rhwystrau personol

Gellir helpu defnyddwyr i oresgyn y rhwystrau personol drwy:

- *hyfforddi* defnyddwyr, yn cynnwys medrau ymgyrchu a lobiö; hyfforddiant codi hyder; medrau gweithle fel cwnsela a chyflwyno, rheolaeth brosiect a recriwtio staff
- sicrhau nad yw defnyddwyr yn gorfod gwario llawer er mwyn cyfranogi, gan

sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut a phryd i hawlio ad-daliadau, a thalu costau yn brydlon, mewn arian parod ar y dydd pan fo'n bosibl

- *systemau hyblyg*, yn amrywio o bolisiâu cyflogi hyblyg i ddarparu llefydd tawel i orffwys neu feddwl. Efallai y bydd defnyddwyr sydd â chyflyrau sy'n amrywio yn eu dwyster yn dymuno cyfleoedd i gynyddu neu leihau eu cyfranogaeth.

### Rhwystrau sefydliadol a gwleidyddol

Dyma rai o'r dulliau a ddefnyddir yn aml i ddileu rhwystrau sefydliadol:

- creu *safonau* cynhwysiad drwy ddealltwriaeth neu siartr defnyddwyr
- newid *arddull cyfarfodydd*, drwy rannu i grwpiau, er enghraifft, defnyddio ieithwedd gynhwysol a glynu at amserlenni y cytunwyd arnynt
- darparu *adnoddau a chefnogaeth* addas i ddefnyddwyr, yn cynnwys staff penodol ar eu cyfer.

### Rhwystrau economaidd a diwylliannol

Mae tlodi, diffyg ymddiriedaeth rhwng sefydliadau a defnyddwyr, a'r ffaith fod pobl yn blino ar ymgynghoriadau yn gallu rhwystro defnyddwyr rhag cyfranogi. Tra bo modd defnyddio ymarferyddion proffesiynol i gyfryngu, mae defnyddwyr neu sefydliadau sydd â'r defnyddwyr yn ganolog iddynt yn fwy ymwybodol o rwystrau economaidd a diwylliannol, ac yn gallu bod yn ddefnyddiol i sefydliadau statudol drwy fod yn bwynt canol rhyngddynt a'r defnyddwyr.

### Rhwystrau technegol

Mae rhwystrau technegol neu ymarferol yn cynnwys diffyg staff sydd â phrofiad o gyfranogaeth, diffyg gwybodaeth am fformatau defnyddiadwy, prinder cefnogaeth dechnolegol, diffyg offer/ cymhorthion a phwysau ar sefydliadau sydd â'r defnyddwyr yn ganolog iddynt i ymateb i agendâu swyddogol yn hytrach na'u hagendâu eu hunain.

### Strwythur: pwyntiau gweithredu

- Sicrhewch fod defnyddwyr yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf, a chynhwyswch fwy nag un neu ddau o aelodau.
- Cynlluniwch o flaen llaw, defnyddiwch leoliadau hygyrch a sicrhewch fod gan ddefnyddwyr amser i baratoi ar gyfer y cyfarfod.
- Lluniwch set o reolau clir ar draws pob lefel o gyfranogaeth, i greu awyrgylch o gydweithio gyda pharch at y naill a'r llall.
- Defnyddiwch ieithwedd glir mewn dogfennau a sicrhewch eu bod ar gael mewn amrediad o ieithoedd a fformatau. Darparwch gymorth i ddefnyddwyr sydd angen cymorth wrth ddarllen dogfennau hir neu gymhleth.
- Cytunwch ar agenda o flaen llaw a sicrhewch fod gan ddefnyddwyr gyfle i ychwanegu eitemau ati.
- Datblygwch weithdrefn glir i ad-dalu costau defnyddwyr, yn ad-dalu cost cynhwysiad, trafndiaeth a chefnogaeth.

## Ymarfer

Mae tystiolaeth defnyddwyr yn dangos fod cynhwysiad yn gallu bod yn fylchog, a hyd yn oed yn negyddol. Gellir gwella ymarfer yn fawr pan fo sefydliadau yn cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaeth gynhwysiad.

## Mathau o gyfranogaeth

Mae pobl wahanol yn dymuno cyfranogi mewn ffyrdd gwahanol. Mae cynhwysiad llwyddiannus yn cynnwys dulliau hyblyg ac amrywiol.

- Mae gan *rhwydweithiau a reolir gan ddefnyddwyr* wreiddiau dyfnach yn nyheadau defnyddwyr gwasanaeth, ond maent yn wynebu rhwystrau cyllido yn aml.
- Mae *fforymau* cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, fel fforymau pobl oedrannus neu bobl ag anableddau dysgu, er enghraifft, weithiau yn osgoi trafod materion ynghylch pŵer, gan mai'r gwasanaethau sy'n eu cynnal. Er mai ar gyfer defnyddwyr y maen nhw'n cael eu cynnal, mae sefydliadau yn gallu dylanwadu ar fforymau o'r fath drwy gyllido neu osod yr agenda wleidyddol.
- Mae gwahanol fathau o *wasanaethau eirioli* ond bwriad pob un ohonynt yw siarad ar ran person arall, neu, yn achos grwpiau hunan-eirioli, ar ran eu haelodau.
- Gall sefydliadau wella ansawdd *cyfarfodydd ymgynghori* drwy sicrhau system ffurfiol o gofnodi prosesau gwneud penderfyniadau; defnyddio dulliau gwahanol o gasglu gwybodaeth, grwpiau ffocws neu holiaduron er enghraifft; a chwrdd â phobl ar adegau mwy cyfleus ac mewn lleoliadau hygyrch.
- Ystyrir *sefydliadau ymgyrchu* weithiau fel sefydliadau *ar gyfer* defnyddwyr, yn hytrach nag yn rhai sy'n cael eu rheoli *gan* ddefnyddwyr. Fodd bynnag, maen nhw'n gallu cynnig ffordd hwylus o gynnwys defnyddwyr, a chreu teimlad o undod a buddiannau cyffredin ymhlith eu haelodau.
- I lawer o bobl, cael eu cynnwys ar lefel feunyddiol, ac felly gael rheolaeth dros eu bywyd bob dydd, yw'r ffurf fwyaf defnyddiol ar gynhwysiad.

## Rhwydweithio a chefnogaeth

Yn aml, ychydig o gyswllt sydd rhwng sefydliadau defnyddwyr a defnyddwyr unigol a grwpiau defnyddwyr eraill, boed yn rhai lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn fod rhwydweithio yn ffordd bwysig o adeiladu gwybodaeth a hygredd. Maen nhw hefyd o'r farn fod rhwydweithio yn eu gwneud yn fwy gweladwy - o fewn gwasanaethau ac ymhlith defnyddwyr a'u sefydliadau. Mae cael cefnogaeth oddi wrth ddefnyddwyr eraill yn help i gynnal diddordeb defnyddwyr, a'u hysgogi. Mae hefyd yn ymbweru defnyddwyr gwasanaeth sy'n newydd i faes cyfranogaeth.

## Meddylfryd creadigol

Nid mewn cyfarfodydd neu holiaduron post yn unig y gall defnyddwyr leisio barn. Mae maes datblygu cymunedol yn darparu cyfleoedd arloesol i gynnwys pobl, drwy ddrama neu gerddoriaeth er enghraifft. Mae 'Technegau Gwerthuso Cyfranogol', a

ddefnyddiwyd yn wreiddiol mewn gwledydd sy'n datblygu, ond sydd nawr yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn cymunedau sydd wedi eu hymylu yn Ewrop a Gogledd America, yn defnyddio dulliau arloesol fel ffotograffiaeth neu fideo i gynnwys pobl.

### Gweithio gyda grwpiau nas clywir eu lleisiau yn aml

Tan yn ddiweddar, ychydig o ystyriaeth oedd yn cael ei rhoi i faterion fel hil, rhywioldeb a phrofiad bywyd mewn systemau cyfranogi defnyddwyr. Mae pobl sydd yn cael eu tan-gynrychioli neu sydd ddim yn derbyn gwasanaethau yn aml yn cael eu heithrio.<sup>3</sup>

- Mae'r methiant i gyrraedd *pobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig* yn arwain at sefyllfa lle mae llai o bobl o'r grwpiau hynny yn derbyn gwasanaethau. Mae hefyd yn arwain at hiliaeth ac agweddau ystrydebol o fewn sefydliadau, a chyllido annibynadwy i sefydliadau du. Mae tystiolaeth fod strategaethau cyfranogi wedi bod yn llai effeithiol wrth gyrraedd cymunedau sydd newydd gyrraedd neu gymunedau pellennig, y rheiny mewn ardaoedd gwledig, er enghraifft.
- Mae anghenion *pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol* yn cael eu hesgeuluso yn aml mewn blaengareddau cyfranogi'r prif ffrwd. Mae rôle 'cenhadon' o fewn sefydliadau yn hanfodol i wella lefelau cyfranogi. Gall gofidion am homoffobia a hetrorywiaeth arwain at sefyllfa lle mae pobl yn ofni bod yn agored am eu rhywioldeb, hyd yn oed pan fo hynny yn effeithio ar y math o wasanaethau sydd eu hangen.
- Gellir galluogi *pobl â nam neu namau cyfathrebu* i gyfranogi drwy ddefnyddio systemau dolen, gweithwyr cynnal neu ddehonglwyr arwyddeg, er bod yn well gan rai pobl gyfrannu'n uniongyrchol. Mewn llawer o systemau ymgynghori, mae gan bobl sy'n gallu cyfathrebu yn hawdd fantais dros y gweddill.
- Mae *pobl â dementia* yn cael eu tangynrychioli'n ddifrifol yn y rhan fwyaf o systemau ymgynghori, er bod ymchwil yn dangos mai dim ond lleiafrif bach iawn sydd ddim yn cael cyfle i leisio barn. Mae cefnogaeth addas yn cynnwys treulio amser gyda pherson, er mwyn iddo/i deimlo'n gyffyrddus, sgysiau anffurfiol a defnyddio lluniau i ysgogi trafodaeth.
- Mae *pobl sy'n ei chael hi'n anodd gadael eu cartrefi* yn aml yn cael eu neilltuo o gyfranogaeth mewn cyfarfodydd. Gellir cyrraedd defnyddwyr ynysig drwy gyfryngau lleol, cylchlythyrau a darparwyr gwasanaeth, a'u cefnogi drwy ddulliau technolegol fel cynadledda fideo neu gan wirfoddolwyr neu weithwyr cynnal.

## Ymarfer: pwyntiau gweithredu

- Sicrhewch fod defnyddwyr yn teimlo bod croeso iddynt a bod eu cyfranogaeth yn cael ei gwerthfawrogi. Sicrhewch fod cefnogaeth iddynt drwy gydol y broses gyfranogi.
- Ystyriwch ddulliau creadigol a blaengar fel drama neu gerddoriaeth i helpu defnyddwyr i deimlo'n gynwysiedig a'u hannog i gyfranogi.
- Byddwch yn ymwybodol pa ddefnyddwyr sydd wedi cael eu tan-gynrychioli ('nas clywir eu lleisiau yn aml') mewn ymarferion cyfranogi, a datblygwch ffyrdd i'w cyrraedd.
- Byddwch yn ymwybodol nad oes gan bob defnyddiwr gwasanaeth yr un cyfle i gael gwasanaethau eirioli.
- Sicrhewch fod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cwrdd/ rhwydweithio yn effeithiol.
- Byddwch yn ymwybodol o effaith gormes lluosog (bod yn ddu a bod ag anabledd, er enghraifft), a chodwch ymwybyddiaeth am faterion hil a diwylliant.
- Darparwch weithwyr dwyieithog a chyfieithwyr ar gyfer pobl sydd ag iaith gyntaf heblaw Saesneg.

## Adolygu

Mae gwerthuso cyfranogaeth yn ffurfiol yn dal yn eithaf anghyffredin. Ond mae'n faes sy'n datblygu'n gyflym, ac fe fydd yn elwa ar sytem gyson o fonitro, cydnabod llwyddiannau a thargedu pethau sydd angen eu gwella. Mae angen i sefydliadau neilltuo adnoddau penodol i adolygu cynnydd o fewn eu strategathau cyfranogi.<sup>4</sup>

## Canllaw gwerthuso

Mae llawer o ddulliau gwerthuso. Dylai'r broses werthuso cyfranogaeth defnyddwyr ystyried:

- Pwy yw'r defnyddwyr gwasanaeth sydd yn cael eu gwasanaethu gan y strategaeth gyfranogi?
- Pa adnoddau sydd ar gael i greu, cynnal a chefnogi'r strategaeth?
- Sut mae canllawiau gwerthuso ansawdd a gwerth y strategaeth yn cael eu pennu?
- Pa mor werthfawr neu effeithiol y mae cynllun y strategaeth (gwerthuso'r broses)?
- Pa mor werthfawr neu effeithiol y mae effeithiau'r strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaeth (gwerthuso'r canlyniadau)?
- Beth yw cost y strategaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ac eraill o'i chymharu gyda dulliau eraill (gwerth am arian)?
- Pa elfennau o'r strategaeth y gellir eu defnyddio mewn cyd-destunau eraill (hyblygrwydd y cysyniad)?

## Gwerthuso mewnol ynteu allanol

Credir bod gwerthuswyr allanol yn fwy annibynnol a bod ganddynt fwy o arbenigedd, ond gallai ystyriaethau perchenogaeth effeithio ar y ffordd y gweithredir yr argymhellion o'u canfyddiadau. Gellir comisiynu gwerthuso allanol gan sefydliad annibynnol neu gall pobl sy'n gwneud gwaith tebyg y tu allan i'r sefydliad werthuso (gwerthuso gan gyfoedion). Mae gan werthuswyr mewnol (rhan o sefydliad yn cael ei gwerthuso) wybodaeth ddefnyddiol am y sefydliad ac maen nhw'n fwy tebygol o weld eu hargymhellion yn cael eu gweithredu, ond gallai rhai eu hystyried yn llai gwrthrychol.

## Adborth

Mae rhoi adborth i bobl ar ôl iddynt gael eu gwerthuso yn rhan bwysig o unrhyw broses adolygu, ac yn helpu i sicrhau fod newidiadau yn dal i ddigwydd a bod cynhwysiad yn parhau.

### Adolygu: pwyntiau gweithredu

- Defnyddiwch adolygiadau i asesu cynnydd a rhoi tystiolaeth am newidiadau sydd wedi digwydd yn sgîl cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth.
- Cynhwyswch ddefnyddwyr yn y broses adolygu, yn cynnwys dehongli canlyniadau a phennu sut byddan nhw'n cael eu defnyddio.
- Gosodwch amcanion realistig, a chynlluniwch y canlyniadau yr hoffech eu gweld.
- Gosodwch amserlen newid glir.
- Penderfynwch a oes angen newidiadau ar lefel unigol neu strategol.
- Sicrhewch fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson.
- Datblygwch system i rannu canlyniadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r sefydliad cyfan.

## Beth nesaf?

Mae'r canfyddiadau yng Nghlanllaw Ymarfer 11 yn amlinellu nifer o faterion am ddyfodol cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth mewn gofal cymdeithasol.

## Proses ynteu ganlyniad

Tra bo mwy o bobl yn cytuno ar union ystyr cyfranogaeth, mae sefydliadau yn aml yn canolbwyntio ar strwythrau cyfranogaeth, tra bo gan ddefnyddwyr fwy o ddiddordeb yn y prosesau a'r canlyniadau. Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol gryfhau'r cyswllt rhwng cyfranogaeth a gwelliannau ansawdd.

## Defnyddwyr gwasanaethau yn rheoli

Mae dulliau 'ymgyngori' (ymarferion ymgynghori) yn dal yn fwy cyffredin na dulliau 'democratiadd' (cynnwys defnyddwyr mewn penderfyniadau). Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol drosglwyddo mwy o bŵer, rheolaeth ac atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

## Troi gwybodaeth yn ymarfer

Mae ymchwil yn danogs ei fod yn anodd troi gwybodaeth yn ymarfer. Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses a gwybod y bydd eu cyfraniad yn cael ei gymryd o ddifrif ac y byddant yn gwneud gwahaniaeth.

## Arbenigedd y defnyddwyr gwasanaethau

Tra bo cyfranogaeth yn creu arbenigedd, mae defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn dod â gwybodaeth ac arbenigedd gyda nhw. Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol gydnabod arbenigedd defnyddwyr, a'u cynnwys ar bob lefel - yn cynnwys lefelau strategol.

## Yr agenda ehangach

Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gofidio am effaith taliadau i ddefnyddwyr ar fuddiannau a systemau trethi. Mae angen ystyried cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth yng nghyd-destun yr agenda bolisi ehangach.

## Cynnydd anwastad

Mae llawer o ddefnyddwyr nad ydynt yn cyfranogi mewn gweithgareddau datblygu gofal cymdeithasol. Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol ddysgu mwy am grwpiau nas clywir eu lleisiau yn aml, am fanteision gweithio ar draws gwahanol wasanaethau a sectorau a blaengaredd ym maes datblygiadau cymunedol.

## Newidiadau gofal cymdeithasol

Bydd tîmau integredig, taliadau uniongyrchol a chyllidebau unigol oll yn newid arddull a natur cyfranogaeth. Ychydig o dystoliaeth sydd ar hyn o bryd fod defnyddwyr yn cyfranogi yn y sector breifat. Efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau sydd â'r defnyddiwr yn ganolog iddynt gystadlu am gyllid gyda sefydliadau nad yw cyfranogaeth mor bwysig iddynt. Mae angen i sefydliadau gofal cymdeithasol sicrhau y gall cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth ffynnu wrth i drefniadau newydd y gwasanaethau gael eu gweithredu.

## Cyfeiriadau

<sup>1</sup> Moriarty, J., Beresford, P., Branfield, F., Forrest, V., Butt, J., Iliffe, S., ac eraill (2007) *The participation of adult service users, including older people, in developing social care*. Llundain: Social Care Institute for Excellence ([www.scie.org.uk/publications/practiceguides/practiceguide11](http://www.scie.org.uk/publications/practiceguides/practiceguide11)).

<sup>2</sup> Wright, P., Turner, C., Clay, D. a Mills, H. (2006) *The participation of children and young people in developing social care*, Llundain: Social Care Institute for Excellence ([www.scie.org.uk/publications/practiceguides/practiceguide06/files/pg06.pdf](http://www.scie.org.uk/publications/practiceguides/practiceguide06/files/pg06.pdf)).

<sup>3</sup> Robson, P., Sampson, A., Dime, N., Hernandez, L. a Litherland, R (forthcoming)

2008) *Supporting the practice framework on participation of seldom-heard users of social care services*. Llundain: Social Care Institute for Excellence.

<sup>4</sup> Doel, M., Carroll, C., Chambers, E. ac erail (2007) *Participation: finding out what difference it makes*. Llundain: Social Care Institute for Excellence ([www.scie.org.uk/publications/resourceguides/rg07/index.asp](http://www.scie.org.uk/publications/resourceguides/rg07/index.asp)).

Cyfranogaeth gan oedolion a phobl oedrannus sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau mewn prosesau sy'n datblygu gofal cymdeithasol

Mae'r canllaw ymarfer llawn ar gael ar ein safle gwe.

Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais.

Social Care Institute for Excellence Goldings House, 2 Hay's Lane London SE1 2HB  
Ffôn 020 7089 6840 Ffacs 020 7089 6841 Ffôn testun 020 7089 6893  
[www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)

Elusen gofrestrdig rhif 1092778 Cwmni cofrestrdig rhif 4289790